**CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GWENFFRWD**
**YN MABWYSIADU POLISI SIR Y FFLINT**
**<u>CÔD YMDDYGIAD YR YSGOL I RIENI</u>**

**Er mwyn sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn heddychlon ac yn ddiogel, ni fydd yr ysgol yn goddef yr ymddygiad a ganlyn gan rieni, gwarcheidwaid, gofalwyr neu ymwelwyr :**
**[Golyga hyn tra bydd rhieni ar safle'r ysgol, neu tra byddant yn cyfathrebu drwy gyfrwng e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol oddi ar safle'r ysgol; mae'n cynnwys hefyd tra'n ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol ar / oddi ar safle'r ysgol]**

- Ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac sy'n ymyrryd, neu'n bygwth ymyrryd, â'r hyn sy'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth, swyddfeydd staff yr ysgol, un o'r swyddfeydd eraill neu unrhyw ran arall o dir yr ysgol, neu mewn digwyddiadau fel gemau tîm oddi ar safle'r ysgol.
- Defnyddio iaith aflafar a/neu ffiaidd, rhegi, melltithio, iaith halogedig neu ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Bygwth niweidio aelod o staff yr ysgol, llywodraethwr, ymwelydd, rhiant/gofalwr neu ddisgybl arall yn gorfforol p'un a yw hwnnw'n ymddygiad troseddol a'i peidio.
- Defnyddio trais corfforol yn erbyn unrhyw berson arall ar safle'r ysgol
- Difrodi neu ddinistrio eiddo'r ysgol/bygwth difrodi neu ddinistrio eiddo'r ysgol
- Anfon negeseuon e-bost, neges llais/testun/ffôn neu unrhyw neges ysgrifenedig/electronig arall sy'n ddifrïol neu'n fygythiol
- Gwneud sylwadau difrïol, ymosodol neu fychanol am yr ysgol neu am ddisgybl/rhiant/staff yr ysgol ar Facebook neu safle rhwydweithio cymdeithasol arall (gweler Atodiad 1). Os oes gennych unrhyw bryderon am yr ysgol, dylech ddilyn y drefn briodol, sef siarad â'r athro/athrawes dosbarth, y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr, er mwyn iddyn nhw fedru ymdrin â'r mater yn deg, yn briodol ac yn effeithiol.
- Ymosod yn gorfforol ar oedolyn arall neu blentyn. Mae hyn yn cynnwys cosbi'ch plentyn eich hun yn gorfforol ar safle'r ysgol.
- Mynd at riant/gwarcheidwad/gofalwr plentyn arall i drafod neu i ddweud y drefn am y modd y mae eu plentyn nhw'n trin eich plentyn chi. (Gellid ystyried ymddygiad o'r fath tuag at blentyn fel ymosodiad arno a byddai goblygiadau cyfreithiol i hynny)
- Ysmygu neu yfed alcohol neu gyffuriau eraill, neu fod â'r rhain yn eich meddiant tra byddwch ar safle'r ysgol

Os bydd unrhyw berson yn ymddwyn mewn **unrhyw un** o'r ffyrdd uchod ar safle'r ysgol, caiff yr ysgol gysylltu â'r awdurdodau priodol ac, os bydd angen, caiff wrthod caniatáu i'r unigolyn/unigolion dan sylw ddod ar dir yr ysgol.
Hyderwn y bydd rhieni a gofalwyr yn helpu'r ysgol i roi'r polisi hwn ar waith a diolch i chi am barhau i gefnogi'r ysgol.

**Corff Llywodraethol Ysgol Gwenffrwd, Hydref 2020**

Atodiad 1

**Defnyddio safle rhwydweithio cymdeithasol mewn ffordd amhriodol**

Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn cael eu defnyddio fwyfwy i hyrwyddo ymgyrchoedd a chwynion yn erbyn yr ysgol, staff yr ysgol ac, weithiau, disgyblion / rhieni eraill. Mae Llywodraethwyr ein hysgol o'r farn ei bod yn annerbyniol defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at y diben hwn ac nad yw o fudd i'r plant na chymuned yr ysgol yn ei chyfanrwydd.
Os oes gennych unrhyw bryderon am yr ysgol, dylech ddefnyddio'r trefniadau priodol drwy siarad â'r athro/athrawes dosbarth, y Pennaeth neu Gadeirydd y Llywodraethwyr, er mwyn iddyn nhw fedru ymdrin â'r mater yn deg, yn briodol ac yn effeithiol.
Os daw i'n sylw bod unrhyw ddisgybl neu riant/gofalwr un o ddisgyblion yr ysgol yn postio sylwadau enllibus neu ddifrïol ar Facebook neu ar unrhyw safle rhwydweithio cymdeithasol arall, byddwn yn rhoi gwybod i'r adran berthnasol ar y safle rhwydweithio. Mae gan bob safle rhwydweithio reolau clir am y cynnwys y gellir ei bostio ar y safle ac mae dulliau pendant o roi gwybod am y rhai sy'n torri'r rheolau. Bydd yr ysgol hefyd yn disgwyl i unrhyw riant/gofalwr neu ddisgybl gael gwared ar sylwadau o'r fath ar unwaith. Mewn achosion difrifol, bydd yr ysgol hefyd yn ystyried cymryd camau cyfreithiol i ymdrin â'r rhai sy'n camddefnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a safleoedd eraill.
Yn bwysicach na hyn oll efallai, yw'r broblem yn ymwneud â seiberfwlio a'r modd y mae un plentyn neu riant yn defnyddio safle rhwydweithio cymdeithasol yn amhriodol i fychanu disgybl neu riant arall yn gyhoeddus. Byddwn yn trin hyn fel achos o fwlio difrifol.
Diolch i'r drefn, mae achosion o'r fath yn eithriadol o brin.

**YSGOL GWENFFRWD'S GOVERNING BODY**
**ADOPTING FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL'S (FCC) MODEL POLICY**
**SCHOOL CODE OF CONDUCT FOR PARENTS**

**In order to support a peaceful and safe school environment, our school will not tolerate parents, guardians, carers or visitors exhibiting the following behaviour:**
**[This includes being on school premises - or when using social media off-site; it also includes observing team matches/extra-curricular activities on/off site]**

- ❖ Disruptive behaviour which interferes or threatens to interfere with the operation of a classroom, staff member's office, office area or any other area of the school grounds including team matches
- ❖ Using loud and/or offensive language, swearing, cursing, using profane language or displaying anti-social behaviour
- ❖ Threatening to do actual bodily harm to a member of school staff, Governor, visitor, fellow parent/carer or pupil regardless of whether or not the behaviour constitutes a criminal offence
- ❖ Actual physical violence against any other person on school premises
- ❖ Damaging or destroying school property/threatening to damage or destroy property
- ❖ Abusive or threatening e-mails or text/voicemail/'phone messages or other written and/or electronic communication
- ❖ Defamatory, offensive or derogatory comments regarding the school or any of the pupils/parent/staff at the school on Facebook or other social network sites. (See Appendix 1) Any concerns you may have about the school must be made through the appropriate school procedure. Normally this is done by speaking to the class teacher, the Head teacher or the Chair of Governors, so they can be dealt with fairly, appropriately and effectively for all concerned
- ❖ The use of physical aggression towards another adult or child. This includes physical punishment against your own child on school premises
- ❖ Approaching another parent/guardian/carer's child in order to discuss or chastise them because of the actions of this child towards their own child. (Such an approach to a child may be seen to be an assault on that child and may have legal consequences)
- ❖ Smoking and consumption of alcohol or other drugs, or in possession of, whilst on school property

Should **any** of the above behaviour occur on school premises the school may contact the appropriate authorities and if necessary refuse the offending person(s) entry to the school grounds.
We trust that parents and carers will assist our school with the implementation of this policy and we thank you for your continuing support of the school.

**Ysgol Gwenffrwd's Governing Body, Autumn 2020**

Appendix 1

**Inappropriate use of Social Network Sites**

Social media websites are being used increasingly to fuel campaigns and complaints against schools, Headteachers, school staff, and in some cases other parents/pupils. The Governors of our schools consider the use of social media websites in this way as unacceptable and not in the best interests of the children or the whole school community.
Any concerns you may have must be made through the appropriate channels by speaking to the class teacher, the Headteacher or the Chair of Governors, so they can be dealt with fairly, appropriately and effectively for all concerned.
In the event that any pupil or parent/carer of a child/ren being educated in our schools is found to be posting libellous or defamatory comments on Facebook or other social network sites, they will be reported to the appropriate 'report abuse' section of the network site. All social network sites have clear rules about the content which can be posted on the site and they provide robust mechanisms to report contact or activity which breaches this. The school will also expect that any parent/carer or pupil removes such comments immediately. In serious cases the school will also consider its legal options to deal with any such misuse of social networking and other sites.
Additionally, and perhaps more importantly is the issue of cyber bullying and the use by one child or a parent to publicly humiliate another by inappropriate social network entry. We will take and deal with this as a serious incident of school bullying.
Thankfully such incidents are extremely rare.